Y Gymdeithas

Sebon, Heulwen, Het a Chlocsen: Ar ôl i Andrew atgoffa'r gynulleidfa eu bod wedi aros am 366 o ddiwrnodau (gohiriwyd y noson oherwydd tywydd garw Ionawr 2010) i glywed am y Sebon, Heulwen, Het a Chlocsen diflanodd rhai o'r gynulleidfa, Dianne yn eu plith. Ond daeth y cyfan yn amlwg, y diflannu a'r teitl, yn ystod y noson.

Fe'n dygwyd ar daith o Gaerdydd i Lanbedr ger Harlech a hynny mewn bws dychmygol. Allan o'r brifddinas heibio Castell Coch a dros y Bannau trwy olygfeydd hardd y canolbarth cyn stopio am hufen iâ dychmygol yn Aberdyfi. Yna'n ôl ar y bws ac ymlaen i Gapel Salem Llanbedr. Gan fod yr hewl yn gul, rhaid oedd codi o sedd y bws a cherdded ar hyd y lôn a thrwy'r coed, neu'n hytrach codi ar ein traed a cherdded o'r festri i mewn i'r capel lle'r oedd *tableau* trawiadol o ddarlun enwog Sidney Curnow Vosper wedi ei greu'n gelfydd. Wedi cerdded heibio'r cymeriadau hyn (ac ambell un yn ddigon i godi ofn arnoch) yn eu gwisgoedd a'u hetiau hynafol aethom yn ôl i'r festri i ateb cwis ar yr hyn a welsom. Prynwyd y darlun gan yr Arglwydd Leverhulme a daeth i boblogrwydd wrth iddo gael ei ddefnyddio i farchnata *Sunlight Soap* y Brodyr Lever. Mae bellach yn cael ei arddangos yn y Lady Lever Art Gallery yn Lerpwl.

Dangoswyd amryw o sleidiau o wisgoedd y cyfnod sydd wedi ei seilio ar y casgliad yn Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan a nododd Dianne ddyled Cwmni Dawns Werin Caerdydd i'r amgueddfa am ei chymorth. Soniwyd am rai o deithiau'r Cwmni i Siapan a'r Unol Daleithau, yn ogystal â'r Almaen a'r Wcráin. Cawsom ychydig o hanes y Cwmni a'u cyfeillgarwch gyda nifer o dimoedd dawnsio gwerin tramor ond yn arbennig Den Osset o'r Iseldiroedd; 'roedd yn arferiad gan bobl yr Iseldiroedd i wisgo clocsiau ar eu traed fel yr hen Gymry. Sebon, Heulwen, Het a Chlocsen - daeth popeth yn eglur yn y pen draw!

Charlotte Guest. Yn dilyn taith y Gymdeithas i Ddowlais, cafwyd noson fyrlymus yng nghwmni un o'n haelodau, yr Athro Sioned Davies, a ddaeth i annerch ar y testun 'Charlotte Guest – ei bywyd a'i chyfraniad i Gymru'. O gefndir breintiedig yn Uffington, swydd Lincoln, daeth y wraig amryddawn hon i ganol berw diwydiannol Merthyr a Dowlais y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn wraig i un o berchenogion Gwaith Haearn Dowlais ac Aelod Seneddol Merthyr, John Josiah Guest.

Ymhen wyth niwrnod roedd wedi mynd ati i gael gwersi Cymraeg. Tra oedd aelodau eraill o'i theulu yn mynychu'r eglwys, i'r capel cyfagos yr âi hi i wrando ar bregethau yn y Gymraeg. Nid syndod, felly, i'r wraig benderfynol hon lwyddo erbyn 1843 i gyfieithu, am y tro cyntaf, un o drysorau llenyddiaeth Gymraeg – y Mabinogi – i'r Saesneg.

Yn ogystal â chyfieithu, roedd ganddi ddiddordeb byw yn y gwaith haearn a byddai'n cynorthwyo'n

ddyddiol. Hi gymerodd at yr awenau pan fu farw ei gwr. Mae'r dyddiadur a gadwodd am 70 mlynedd yn sylwebaeth amhrisiadwy ar fywyd cymdeithasol y cyfnod. Yn lleol gwnaeth gyfraniad mawr i ddiwylliant ac addysg drwy adeiladu llyfrgell a nifer o ysgolion - i ferched yn ogystal â bechgyn – gan sicrhau ei bod yn ymweld â nhw'n gyson. 'Roedd hefyd yn trefnu dosbarthiadau nos i'r gweithwyr. Yng nghanol hyn i gyd, llwyddodd i roi genedigaeth i ddeg o blant! Gwraig anhygoel yn wir.

Fy Milltir Sgwâr. Pobl 'ddwad' yw mwyafrif y Cymry Cymraeg sydd yn y brifddinas erbyn hyn, ac er i Peter Gillard, Rhian Linecar ac Eilonwy Jones ymgartrefu yng Nghaerdydd ers degawdau bellach, dewis sôn am y pentrefi lle'u magwyd - ym Mhen Llyn a'r De-orllewin wnaeth y tri wrth gyflwyno ' *Fy Milltir Sgwâr'*.

Olrhain y newid mawr fu ym **Mhwllheli,** y pentref glan môr lle cafodd Rhian ac yntau eu codi, wnaeth Peter; pentref oedd bron yn uniaith Gymraeg yn ystod ei lencyndod, ond a dyfodd yn dref brysur ac yn gyrchfan i'r ymwelwyr a dyrrai yn eu miloedd i *Butlins* ar eu gwyliau. Bellach mae'n gyrchfan i hwylwyr o bedwar ban; y marina mwyaf ym Mhrydain, ar wahân i Cowes! I raddau helaeth yr un fu'r dylanwadau cynnar ar y tri siaradwr: rhieni a theulu, athro ac ysgol, capel ac Ysgol Sul. *"Mae'n beth reit emosiynol*," meddai Rhian wrth gofio bro ei mebyd, *"mae teimladau o hiraeth, euogrwydd, llawenydd a thristwch yn gymysg oll i gyd."*

Pontlliw - pentre'r pyllau glo a'r cymeriadau lliwgar ar y ffin rhwng y Forgannwg ddiwydiannol a'r Sir Gâr amaethyddol yw'r 'filltir sgwâr' i Eilonwy. 'Roedd y capeli'n ganolbwynt i fywyd ysbrydol a diwylliannol y pentref yn ystod ei phlentyndod. Ond daeth tro ar fyd. Cau bu hanes y pyllau glo ac uno bu hanes rai o'r capeli. *"Ydw, dwi'n byw yng Nghaerdydd ers blynyddoedd lawer ond*", meddai Eilonwy, *"Pontlliw yw ngartre i ... yno ... "Rydw i'n perthyn – i'r popeth di-ri' sy'n cydio amdana'i dynn, ac maen' hwythau yn symud a bod ynof fi."* (Perthyn gan Islwyn Ffowc Elis; allan o *Yr Arloeswr (Rhifyn 5) Gaeaf 1959)"*

Cefyn Burgess. Mae Cefyn Burgess yn hanu o Fethesda ac wedi ei hyfforddi'n wehydd. Ar ôl graddio ym Manceinion aeth ymlaen i wneud MA yn y Royal College of Art ac yn ystod yr 1980au cafodd y fraint o fod y gwehydd cyntaf yn Amgueddfa Sidan Paradise Mill ym Macclesfield. Felly, roedd yn fraint i ninnau gael ei gwmni yng Nghymdeithas Minny Street ac efallai bod ei gyfeillgarwch â Hefin a Bethan tra bu'n mynychu Eglwys Radnor Walk yn Llundain wedi dylanwadu arno i ymweld â ni.

Gwelsom enghreifftiau niferus o'i waith cywrain ac aethom ar daith trwy gyfrwng ei waith wrth iddo ein tywys trwy rhai o gapeli Cymru, Lerpwl ac yna ymlaen i'r Unol Daleithiau. Dywedodd mai ymateb ynddo ef i'r lliwiau a'r siapiau sydd o'i gwmpas yw nifer o'i gynlluniau a gwelwyd hyn yn y pwytho celfydd yn y cwpanau a soseri a luniwyd ganddo o hen gapeli. Yn 2009 roedd Cefyn yn rhan o Wyl Bywyd Gwerin y Smithsonian yn Washington D.C. Bu'n sôn wrthym am ei brofiad yn cydweithio gyda phlant o wahanol daleithiau a oedd yn ymweld â'r wyl ac am yr ymryson a fu rhyngddo ef ac ambell blentyn i geisio troi cynllun y plentyn yn gampwaith yn y cwilt, a hynny ar fyrder. Mae Cefyn yn bendant ei farn bod cwiltio cywrain y Cymry a aeth i fyw yn America wedi dylanwadu ar y cwiltiau a gynhyrchir gan yr Amish. Ar ôl noson mor ddiddorol codwyd awydd ynddom i ymweld â'r arddangosfa o'i waith yng Nghanolfan y Mileniwm (11 Ebrill tan 31 Mai) ac yn adeilad y Pierhead (Mis Mai).